

**Arolygiad Iechyd  
Meddwl/Anabledd Dysgu  
(dirybudd)**

**Cefn Carnau: Sylfaen,  
Bryntirion a Derwen: Priory  
Group Limited**

11, 12 a 13 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	2
2. Methodoleg.....	3
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	4
4. Crynodeb.....	5
5. Canfyddiadau .....	8
Safonau Craidd .....	8
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	17
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	18
6. Y Camau Nesaf .....	19
Atodiad A.....	20

## 1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch-staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)<sup>1</sup>
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a llyeg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffuriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

---

<sup>1</sup> Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Ysbyty diogelwch isel yw Ysbyty Priory yng Nghefn Carnau, sy'n darparu gofal a thriniaeth ar gyfer hyd at 22 o oedolion â diagnosis o anabledd dysgu a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r ysbyty wedi'i leoli rhwng Caerffili a Chaerdydd, ac mae'n eiddo i Priory Group Limited. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu'r canlynol:

- Mae Ward Sylfaen yn wasanaeth diogelwch isel ar gyfer uchafswm o wyth o oedolion benywaidd sy'n hŷn na 18 oed ac sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Mae Ward Bryntirion wedi'i chofrestru ar gyfer uchafswm o wyth o oedolion gwrywaidd sy'n hŷn na 18 oed ac sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Mae Ward Dderwen yn wasanaeth diogelwch isel ar gyfer uchafswm o chwech o oedolion gwrywaidd sy'n hŷn na 18 oed ac sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## 4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o Ysbyty Cefn Carnau ym mhob un o'r tair ward.

Canfuom fod lle i wella, ac roedd yn siomedig gweld bod nifer o enghreifftiau o fynd yn groes i'r rheoliadau, ond roeddem hefyd yn falch o gael nifer o ganfyddiadau cadarnhaol.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod gan y staff ffordd gadarnhaol o ymgysylltu â'r broses arolygu, a gwelsom fod perthynas dda rhwng y staff a'r cleifion. Yn benodol, gwelsom fod ymddygiad heriol dau glaf wedi cael ei leihau mewn ffordd broffesiynol a digynnwrf. Roedd yn siomedig, felly, cyrraedd yr ysbyty gyda'r nos ar 11 Awst 2015 a gweld diffyg cydymffurfiaeth o ran staffio.

Wrth gyrraedd Cefn Carnau, gwelsom nad oedd nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd a oedd wedi eu cyflogi'n barhaol. Roedd y tair ward yn cael eu rheoli gan ddwy nyrs asiantaeth ac un nyrs gronfa nad oeddent yn gyfarwydd â'r ysbyty ac a oedd yn gweithio heb unrhyw staff a oedd wedi eu cyflogi'n rheolaidd. At hynny, datgelodd trafodaethau ag un aelod o staff asiantaeth nad oedd ganddo'r lefel o wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd ei hangen i weithio gyda'r grŵp cleifion (darparu'r gofal sydd ei angen ar y cleifion) yn yr ysbyty. Nid oedd gan yr aelod o staff asiantaeth hyfforddiant cyfredol mewn ataliaeth, ac nid oedd yn gallu egluro i'r arolygwyr beth oedd adran 37/41. Mae'n hanfodol bod gan unrhyw staff asiantaeth sy'n gweithio yng Nghefn Carnau y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y grŵp o gleifion er mwyn sicrhau cymhwysedd ac ansawdd y gofal a ddarperir.

Gwnaeth adolygiad o'r wybodaeth a gedwir ar ffeil yr asiantaeth ddangos bod maes arall â diffyg cydymffurfiaeth sylweddol o ran sgiliau a phrofiad. Nid oedd y ffeil yn cynnwys copi o CV na gwybodaeth gynefino ar gyfer y ddau aelod o staff asiantaeth a oedd ar ddyletswydd. Nid oedd modd, felly, cadarnhau sgiliau, profiad a gwybodaeth y ddau aelod o staff asiantaeth. Mae effaith diffyg gwybodaeth am y staff asiantaeth sydd wedi eu contractio gan y gwasanaeth yn sylweddol. Nid oedd modd darganfod y lefel sgiliau a chymhwysedd, a gallai hyn gael canlyniad sylweddol ar gyfer yr ysbyty o ran ansawdd y gwasanaeth, diogelwch, a dilyniant o ran gofal.

Ar ôl ein hymweliad, gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, ac mae'r sefydliad wedi ymateb ac wedi darparu cynllun gweithredu ar gyfer y camau a roddwyd ar waith ganddynt i gywiro'r achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r hysbysiad a'r cynllun gweithredu wedi eu cyhoeddi ar wefan AGIC.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol yn yr amgylchedd. Ers ein hymweliad blaenorol ym mis Medi 2014, roeddem yn falch o nodi bod gwelliannau. Rhoddwyd ffenestri newydd, roedd cefn yr adeilad wedi'i baentio, roedd y wardiau wedi eu hailaddurno, ac roedd dodrefn newydd i'w gweld yno.

Roedd sylwadau gan gleifion ac aelodau staff yn cadarnhau bod y bwyd wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf ym mis Medi 2014. Roedd y sylwadau mwyaf cadarnhaol yn ymwneud â'r dewis o fwyd a'i ansawdd. Nodwyd bod amser y pryd bwyd prynhawn wedi newid o 4pm i 5.15pm, sy'n rhoi bwlch mwy rhesymol rhwng amser cinio a'r pryd bwyd gyda'r nos.

Mae adolygiad o ffeiliau staff wedi nodi rhai meysydd sydd angen sylw; yn benodol, dylid sicrhau bod gan bob ffeil ddau eirda a bod tystiolaeth o gymwysterau perthnasol yn cael ei chofnodi. Mae angen cynnal adolygiad o ffeiliau'r staff er mwyn sicrhau cysondeb y wybodaeth a gedwir ar y ffeil ac i gael gwybodaeth am safon yr arferion cyflogaeth a safon y staffio yn yr ysbyty.

Dangosodd adolygiad o'r ystadegau hyfforddiant, ynghyd â thrafodaethau gyda staff, fod diffygion o ran hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Cynlluniau Ymddygiad Cadarnhaol, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a hyfforddiant diffibriliad. Mae angen i hyfforddiant gael ei adolygu er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff a'r staff cronfa hyfforddiant cyfredol a pherthnasol.

Gwelwyd bod diffyg goruchwyliaeth reolaidd, a bod angen adolygu'r dull goruchwylio. Nid oedd rhai o'r staff wedi cael goruchwyliaeth ers peth amser, a dywedodd aelodau staff eraill wrthym fod goruchwyliaeth yn cael ei defnyddio fel cosb er mwyn mynd i'r afael â phroblemau. Mae angen rhoi system goruchwyliaeth reolaidd ar waith ar gyfer pob aelod o staff fel y gallant ddysgu a datblygu.

Roedd cyflwyno therapi anifeiliaid anwes yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp o gleifion. Cyflwynwyd dwy gath a rhai ieir yn ddiweddar, ac roedd y rhain yn cynnig therapïau a gweithgareddau amgen i'r cleifion. Cynigid amrywiaeth eang o weithgareddau, a gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod ein hymweliad, ond roedd y lefel cymhelliad ar ward y menywod yn effeithio ar gyfranogiad y cleifion mewn gweithgareddau.

Roedd y gwasanaeth addysgol mewnol i'r cleifion wedi cael ei leihau'n sylweddol, a rhoddwyd y gorau i achredu, er bod gwefan y Priory yn hysbysebu'r gwasanaeth hwn. Mae'n rhaid ystyried ailgyflwyno addysg ac achredu mewnol, oherwydd roedd hyn bob amser wedi bod yn un o uchafbwyntiau'r gwasanaeth a ddarperir yn Ysbyty Cefn Carnau, a bydd cael gwared ar y cyfleoedd hyn yn cael effaith sylweddol ar gynnydd cleifion.



Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth eiriolaeth gan gleifion a staff, ac roedd posteri a gwybodaeth wedi eu harddangos yn glir ar y wardiau. Roedd y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn drwyadl iawn, ac roedd systemau effeithiol ar waith.

Roedd diffyg prosesau archwilio a llywodraethu cadarn a phriodol, ac mae angen i'r rhain fod ar waith. At hynny, o dan Reoliad 28 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rhaid i'r darparwr cofrestredig gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar y meysydd a restrir o fewn Rheoliad 28 i AGIC bob chwe mis. Nid yw AGIC wedi derbyn copïau o unrhyw adroddiadau a wnaed gan y darparwr cofrestredig.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y ward**

Wrth gyrraedd yr ysbyty, roedd yn amlwg bod buddsoddiad wedi'i wneud yn yr amgylchedd. Roedd tu allan yr ysbyty wedi'i baentio, a gwelwyd bod ffenestri newydd drwy'r ysbyty i gyd. Yn fewnol, roedd yr holl wardiau wedi elwa ar waith ailaddurno, a rhai ffitiadau a dodrefn newydd.

Wrth fynd i mewn i Ward Sylfaen, roedd arwydd croeso wedi'i arddangos, ynghyd â lluniau o rai cleifion a oedd am gyflwyno eu hunain i ymwelwyr. Roedd y ward wedi'i hailaddurno, ac roedd lluniau a hysbysfyrddau wedi eu harddangos drwyddi draw. Roedd gan yr hysbysfyrddau wybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, rheolau'r ward, sut i wneud cwyn, y canllaw i gleifion, y weithdrefn gwacáu'r adeilad mewn tân, manylion cyswllt AGIC, a phethau sy'n digwydd.

Roedd dwy lolfa ar gael ar gyfer y grŵp o gleifion. Roedd gan y ddwy lolfa deledu a digon o le i eistedd. Roedd heulfan oddi ar y brif lolfa, a cheir mynediad at ardd hefyd. Roedd yr ardd i'w gweld mewn cyflwr da, ac roedd rhai planhigion wedi eu plannu ynddi. Roedd seddi a chyfleusterau ar gyfer ysmegu ar gael hefyd.

Ar adeg ein hymweliad, dim ond un bwrdd a phedair cadair oedd gan y gegin, ac nid oedd hyn yn ddigon ar gyfer y grŵp o gleifion, ond cadarnhaodd y staff fod seddi ychwanegol ar gael, a'u bod yn dod â'r rhain allan er mwyn i'r holl gleifion allu bwyta gyda'i gilydd. Roedd y gegin yn olau, roedd bwydlen wedi'i harddangos, ac roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion storio eu heitemau bwyd eu hunain. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr oergell yn cynnwys eitemau a oedd heibio eu dyddiad – yn benodol, roedd pwdin reis â dyddiad 9 Awst, a hufen â dyddiad 10 Awst. Mae angen gwirio eitemau bwyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w bwyta.

Roedd swyddfa nyrs ac ystafell ddosbarthu meddyginiaeth ar y llawr daear, yn ogystal ag ystafell ymolchi, toiled a sinc. Roedd y cyfleusterau'n lân, ac roedd yr amgylchedd yn olau.

Roedd ystafelloedd gwely cleifion wedi eu lleoli i fyny'r grisiau, ac roedd gan yr holl gleifion eu hystafelloedd eu hunain. Oherwydd amser ein hymweliad a'r ffaith nad oeddem am darfu ar y cleifion, ni aethom i fyny'r grisiau i arsylwi ar yr amgylchedd.

Lleolir Ward Bryntirion ar ail lawr yr ysbyty, a cheir mynediad ati drwy ddringo'r grisiau. Mae'r holl gyfleusterau ar gyfer y cleifion ar yr un llawr, a lleolir ystafelloedd gwely ar y naill ochr o'r ward, a manau byw y cleifion ar y llall. Roedd gan y ward un lolfa gyda theledu a chonsol gemau. Roedd loceri'r cleifion wedi eu lleoli yn y lolfa, ac roeddent yn gallu storio eu heiddo personol ynddynt. Roedd y lolfa wedi cael ei hailaddurno, ac roedd seddi newydd yn cael eu defnyddio. Roedd i'r lolfa deimlad cartrefol, ac roedd gemau bwrdd a llyfrau ar ben bwrdd coffi yng nghanol y lolfa. Roedd addurniadau ar y sillff ffenestr yn ychwanegu at yr amgylchedd cartrefol mwy fyth.

Roedd cegin/ystafell fwyta wedi ei lleoli ar ddiwedd y ward. Roedd yr ystafell wedi cael ei hailaddurno, a chypyrddau newydd wedi eu gosod yn y gegin. Roedd bwrdd bwyta mawr pren â digon o seddi yng nghanol yr ystafell. Ar ben y bwrdd, roedd bowlen ffrwythau ar gael a chanddi amrywiaeth o ffrwythau ar gyfer y cleifion. Roedd matiau ar y bwrdd, ac roedd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad bwyta cadarnhaol. Câi prydau bwyd eu dosbarthu a'u gweini drwy ddefnyddio lifft bwyd/agoriad gweini yn yr ystafell.

Wrth fynd i mewn i'r ward, mae cyntedd mawr, a lleolir swyddfa'r nyrs yma. Roedd seddi y gallai'r cleifion eistedd arnynt, a hysbysfyrdau a oedd yn dangos amrywiaeth o wybodaeth i'r cleifion. Roedd y cleifion wedi cwblhau posau jig-so, ac roedd y rhain wedi eu fframio a'u harddangos ar y waliau oddi ar y ward.

Roedd modd i'r cleifion gael mynediad at yr ardd a leolid i lawr y grisiau. Roedd yr ardal wedi'i chynnal a'i chadw'n dda; roedd y lawntiau wedi eu torri ac roedd gwely blodau yno. Roedd gan un claf ei ddarn ei hun, ac roedd yn tyfu llysiau a blodau yno.

Mae Ward Dderwen i gyd wedi'i lleoli ar un llawr, fel Ward Bryntirion. Wrth fynd i mewn i'r ward, roedd ystafell ymolchi, ac ystafelloedd gwely'r cleifion ymhellach i lawr y coridor. Roedd lolfa a heulfan yn rhoi ystafelloedd i'r cleifion ymlacio ynddynt a gwyllo teledu, a cheid mynediad at yr ardd drwy'r heulfan.

Roedd yr ardd mewn cyflwr da, ac roedd cyfleusterau ar gael ar gyfer ysmegu pe bai'r cleifion eu hangen.

Roedd ystafell fwyta wedi'i lleoli ar ben y ward, a oedd yn cynnwys digon o seddi a byrddau ar gyfer y grŵp o gleifion. Roedd swyddfa nyrsio ac ystafell glinig ar y ward hefyd.

Gwnaethom nodi bod y ward wedi cael ei hailaddurno ers ein hymwelid blaenorol ym mis Medi 2014, a bod hyn yn rhoi amgylchedd golau a glân i'r cleifion.

## **Camau gofynnol**

***Mae angen i'r holl eitemau bwyd sy'n cael eu storio yn oergell y gegin gael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio.***

## **Diogelwch**

Gyda'r nos ar 11 Awst 2015, nid oedd person enwebedig yn gyfrifol am yr ysbyty. Pe bai argyfwng/sefyllfa'n codi, ni fyddai unrhyw un i gydlynu'n ganolog. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unigolyn addas yn gyfrifol am yr ysbyty.

Yn ystod yr ymweliad gyda'r nos, gwelsom nad oedd nyrsys cofrestredig a gyflogid yn barhaol ar ddyletswydd. Roedd y tair ward yng Nghefn Carnau'n cael eu rheoli gan ddwy nyrs asiantaeth ac un nyrs gronfa. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod o leiaf un nyrs gofrestrdig a gyflogir yn barhaol ar ddyletswydd yn yr ysbyty.

Wrth drafod gydag un aelod o staff asiantaeth, daeth yn amlwg nad oedd gan yr unigolyn hwnnw'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i weithio yn yr ysbyty. Yn benodol, nid oedd y nyrs asiantaeth yn gallu esbonio beth oedd adran 37/41 a'r goblygiadau cysylltiedig ar gyfer gofal cleifion. At hynny, nid oedd ganddynt hyfforddiant cyfredol mewn ataliaeth, na hyfforddiant priodol mewn Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, sef y dechneg a ffeirir yng Nghefn Carnau. Mae'n hanfodol bod gan unrhyw staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y grŵp o gleifion er mwyn sicrhau cymhwysedd ac ansawdd y gofal a ddarperir.

At hynny, gwnaethom adolygu'r ffeil asiantaeth yr oedd dogfennau CV y staff asiantaeth wedi eu storio ynddi, ac roedd yn siomedig darganfod nad oedd gan yr aelodau o'r asiantaeth a oedd ar ddyletswydd ar adeg ein hymweliad unrhyw wybodaeth yn eu ffeiliau i gadarnhau eu sgiliau a'u profiad. Nid oedd cofnod o hyfforddiant cynefino yn y ffeiliau. Gan fod gwybodaeth ar goll, nid oedd modd cadarnhau sgiliau, profiad a gwybodaeth y ddau aelod o staff asiantaeth. Mae'r effaith y mae diffyg gwybodaeth am staff asiantaeth yn ei chael yn sylweddol. Nid oedd modd darganfod y lefel sgiliau a chymhwysedd, a gallai hyn gael canlyniad sylweddol ar gyfer yr ysbyty o ran ansawdd y gwasanaeth, diogelwch, a dilyniant o ran gofal. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan y staff asiantaeth a'r staff cronfa y sgiliau a'r profiad hanfodol i weithio yn yr ysbyty.

O ganlyniad i'r materion y tynnwyd sylw atynt – sef y ffaith nad oedd neb yn gyfrifol am yr ysbyty; y staff asiantaeth a'u gwybodaeth, sgiliau a phrofiad; a'r

diffyg gwybodaeth yn y ffeiliau – cyflwynodd AGIC hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio oherwydd nid oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Rydym wedi derbyn cynllun gweithredu gan yr ysbyty, sy'n cadarnhau'r gweithdrefnau a'r prosesau a roddwyd ar waith ganddynt i fynd i'r afael â'r materion. Mae'r hysbysiad a'r cynllun gweithredu wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.

### ***Camau gofynnol***

***Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod o leiaf un aelod parhaol o'r tîm nyrsio ar ddyletswydd bob amser.***

***Mae'n hanfodol bod gan unrhyw staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.***

***Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gan y staff asiantaeth a'r staff cronfa y sgiliau a'r profiad hanfodol i weithio yn yr ysbyty.***

### **Y tîm amlddisgyblaethol**

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol. Dywedodd staff fod safbwyntiau proffesiynol yn cael eu ceisio a'u gwerthfawrogi, ac roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu.

Cynhelid cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn fisol, ac roedd un o'r Clinigwyr Cyfrifol wedi rhannu ei gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol dros ddau ddiwrnod. Dywedodd y staff fod hyn yn gweithio'n well am eu bod yn cael cyfle i fod yn ôl ar y wardiau yn hytrach nag eistedd yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol drwy'r dydd.

### **Gofal iechyd cyffredinol**

Cynhaliwyd adolygiad o'r ystafell driniaeth/glinigol ar ddwy ward, a gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Mae angen cael gwared ar feddyginiaeth sydd wedi mynd heibio ei dyddiad, er mwyn osgoi'r risg y bydd meddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad yn cael ei defnyddio.

### ***Camau gofynnol***

***Mae'n rhaid i'r ysbyty roi system ar waith i adolygu dyddiadau dod i ben meddyginiaeth er mwyn sicrhau y ceir gwared ar yr holl feddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad.***

## **Preifatrwydd ac urddas**

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, a chyfleusterau toiled a chawodydd a rennid. Dywedodd un claf fod y toiledau'n frwnt ar adegau, ond yn ystod ein hymweliad, ni welsom amgylchedd brwnt yno. Fodd bynnag, mae angen gwirio cyfleusterau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Dywedodd y cleifion eu bod yn gallu storio ac arddangos eitemau personol yn eu hystafelloedd, a dywedodd pob claf bod modd iddo gloi ei ystafell. Teimlai'r cleifion fod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu yn yr ysbyty.

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu tywys o gwmpas y ward wrth iddynt gael eu derbyn yno, a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y cyfan.

Roedd cyfleusterau er mwyn i'r cleifion allu derbyn ymwelwyr, ac roedd ffonau ar gael er mwyn i'r cleifion allu cadw mewn cyswllt â'u teulu a'u ffrindiau. Dywedodd pob claf fod ganddo nyrs enwebedig y gellid trafod materion preifat â hi.

## **Therapiau a gweithgareddau i gleifion**

Roedd gan y cleifion fynediad at nifer o therapïau a gweithgareddau, ond dywedodd y staff fod cymhelliad yn fater allweddol, yn enwedig ar Ward Sylfaen. Dywedodd rhai aelodau staff fod rhai cleifion yn ymddangos yn sefydliadedig, a bod llawer o gleifion nad oeddent yn mynychu'r cyfarfod boreol i drafod y dydd o'u blaen. Dywedodd llawer o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar Ward Sylfaen nad oedd digon i'w wneud, ac yn ystod ein hymweliad gwelsom un claf yn cwyno i weithiwr cymorth asiantaeth nad oedd unrhyw beth iddi ei wneud, a'i bod yn mynd i fynd yn ôl i'w gwely. Ni chynigiodd y gweithiwr asiantaeth unrhyw weithgaredd amgen iddi, ac aeth â'r claf i'w hystafell.

Dywedodd y cleifion wrthym fod ganddynt amserlen gweithgareddau unigol, gan ddisgrifio'r gweithgareddau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys cerdded ar dir yr ysbyty, coginio, chwarae golff yn y maes ymarfer lleol, seiclo, a gemau bwrdd a chardiau. Cynhelir clwb cymdeithasol bob prynhawn, ac mae'r cleifion yn dod ynghyd ac yn sgwrsio, yn chwarae gemau, ac yn gwrando ar gerddoriaeth. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod mwy o weithgareddau'n cael eu cynnal ar wardiau Dderwen a Bryntirion nag ar Ward Sylfaen. Roedd un claf ar Ward Dderwen yn chwarae ar y consol gemau fideo, tra bod claf arall yn garddio ac wedi tyfu nifer o lysiau a blodau, a oedd yn creu arddangosfa liwgar ac apelgar.

Roedd gan yr ysbyty dir helaeth, a defnyddid twneli plastig a thai gwydr i dyfu amrywiaeth o lysiau. Anogid y cleifion i gymryd rhan, ac roeddem yn falch o nodi bod y cynnyrch a dyfid ynddynt yn cael ei ddefnyddio gan y gegin.

Ar benwythnosau, dywedodd y staff fod gweithgareddau'n cael eu cynnal ar y safle yn bennaf, ond bod y staff yn ceisio mynd â chymaint o gleifion allan ag y gallent, yn ddibynnol ar y lefelau staffio ac argaeledd cerbydau ysbyty. Hoffai cleifion ag absenoldeb adran 17 drefnu ymweliadau adref i weld eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Roedd therapi anifeiliaid anwes yn fenter newydd a gyflwynwyd gan reolwr newydd yr ysbyty, ac roedd cathod ac ieir yn byw yn yr ysbyty bellach. Dywedodd y cleifion wrthym am yr hyn roeddent yn ei wneud gyda'r anifeiliaid, megis eu bwydo, gofalu amdanynt, a sicrhau bod yr ieir yn mynd i'w gwely yn y nos. Ar adeg ein hymweliad, yr uchafbwynt i'r cleifion a'r staff oedd yr anifeiliaid, heb amheuaeth. At hynny, roedd rhai cleifion yn cymryd rhan mewn cerdded y cŵn, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn am y gweithgaredd hwn hefyd.

Roedd y ddarpariaeth addysg fewnol wedi cael ei lleihau'n sylweddol, a rhoddwyd y gorau i achredu. Roedd hyn yn siom fawr i ni yn ogystal â'r staff. Roedd y rhaglen addysg ac achredu'n dal i gael ei hysbysebu ar wefan y Poriy, er nad yw'n bodoli bellach, a dylid ail-gyflwyno'r rhaglenni addysg ac achredu mewnol.

Roedd nifer o therapïau ar waith ar gyfer y cleifion, ac roedd y rhain yn cael eu cyflenwi gan y tîm seicoleg, therapi galwedigaethol, a therapydd celf. Dywedodd y staff wrthym fod swydd cydlynnydd gweithgareddau wedi'i threialu am fis; mae hon wedi dod i ben bellach, ond roedd yn gweithio'n dda ar Ward Dderwen.

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod apwyntiadau'n cael eu gwneud i weld meddyg teulu, optegydd, deintydd ac ati os oedd angen.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth eiriolaeth gan y staff a'r cleifion, ac roedd posterï ar yr holl wardiau a oedd yn hysbysu'r cleifion am y gwasanaeth, gan gynnwys enw a manylion cyswllt.

### ***Camau gofynnol***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r gweithgareddau a gynigir i gleifion, yn benodol ar Ward Sylfaen, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y cleifion, a'u bod mor agos â phosibl i'w diddordebau, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymgysylltu ac yn cyfranogi mwy.***

***Mae'n rhaid ystyried ail-gyflwyno rhaglenni addysg ac achredu mewnol.***

## **Bwyd a maeth**

Ar y cyfan, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion a staff am y dewis o fwyd a oedd yn cael ei weini, a'i ansawdd. Dywedodd saith claf o blith naw y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r prydau bwyd yn yr ysbyty.

Roedd dau gogydd yn eu swydd ar adeg ein hymweliad, a dywedodd y cleifion fod ganddynt fwydlen er mwyn dewis opsiynau bwyd. Dywedodd y cleifion a'r staff wrthym fod y bwyd wedi gwella, ac roedd hyn yn welliant o gymharu â'n hymweliadau diwethaf ym mis Ebrill a mis Medi 2014. At hynny, roeddem yn falch o nodi bod y pryd bwyd olaf yr oedd yr ysbyty yn ei weini wedi newid o 4pm i 5.15pm, gan estyn y bwlch rhwng cinio a swper, a chan helpu i atal y cleifion rhag bwyta byrbrydau gyda'r nos, fel y gwelwyd ym mis Medi 2014.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael prynu a storio eu byrbrydau eu hunain, a'u bod yn gallu cael diod a byrbryd y tu allan i amserau prydau bwyd penodedig. Ni ddywedodd unrhyw gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt broblemau o ran cael deiet sy'n briodol ar gyfer eu crefydd neu ddiwylliant, ac roedd unrhyw gleifion ag alergeddau neu broblemau o ran deiet yn derbyn bwydlen a oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Dywedodd bron i'r holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y bwyd a oedd yn cael ei weini'n ddigon iddynt, a chadarnhaodd y staff fod maint y dognau bwyd yn dda. Dywedodd y cleifion ar Ward Bryntirion wrthym fod ganddynt lyfr sylwadau yn eu cegin/ystafell fwyta, a'u bod yn gallu ysgrifennu adborth ynddo ynglŷn ag ansawdd y bwyd a weinwyd, ac y byddai'r staff arlwyo'n ei adolygu'n rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu pwysu'n rheolaidd, ac os oedd angen, byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu gyda deietegydd drwy'r meddyg teulu.

## **Hyfforddiant**

Gwnaethom adolygu deg o ffeiliau staff a nodi bod rhai anghysondebau yn y wybodaeth a gedwid ynddynt. Roedd un ffeil nad oedd yn cynnwys unrhyw eirdaon ysgrifenedig, ac nid oedd dogfennau i ddangos tystiolaeth o gymwysterau perthnasol. Roedd amrywiaethau eraill yn cynnwys rhai ffeiliau a oedd yn cynnwys ffotograff o'r cyflogai, a rhai nad oedd yn cynnwys hyn, a rhai ffeiliau a oedd yn cynnwys holiaduron meddygol, tra bod ffeiliau eraill nad oedd yn cynnwys y rhain. Trafodwyd problemau tebyg gyda ffeiliau'r staff ym mis Medi 2014, felly mae angen cynnal adolygiad o ffeiliau'r staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn y ffeiliau'n gyson.



Roedd system ar waith i gofnodi a monitro gwybodaeth gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gwnaethom nodi a chymeradwyo'r arferion da a fabwysiadwyd gan Ysbyty Cefn Carnau i adnewyddu gwiriadau pob aelod o staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod gwiriad annibynnol gan yr ysbyty sy'n helpu i ehangu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad ei staff.

Dangosodd dadansoddiad o'r ystadegau hyfforddiant a thrafodaethau gyda'r staff fod diffygion mewn rhai modiwlau hyfforddiant penodol. Yn benodol, mae angen darparu hyfforddiant i staff ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, a hyfforddiant diffibriliad.

Roedd diffyg tystiolaeth bod y staff yn derbyn arfarniadau a goruchwyliaeth reolaidd. Dim ond hanner y ffeiliau staff a adolygwyd oedd yn cynnwys copi o arfarniad. O'r arfarniadau a welwyd, roedd dyddiadau'r arfarniad diwethaf yn amrywio o fis Rhagfyr 2012 i fis Mawrth 2014. Fodd bynnag, roedd ystadegau a gyflwynwyd o'r system *Foundations for Growth*<sup>2</sup> yn dangos dyddiadau ym mis Mawrth 2015 ar gyfer dau gyflogwr, ond nid oedd tystiolaeth yn eu ffeiliau. Roedd hyn yn broblem ym mis Medi 2014, ac mae angen rhoi system ar waith i fynd i'r afael â'r mater.

Dim ond pedair ffeil o blith deg oedd yn cynnwys copiâu o ddogfennau goruchwyliaeth staff. Roedd gan ddwy o'r ffeiliau gofnodion goruchwyllo â dyddiad 2014, ac roedd dwy ffeil yn nodi bod goruchwyliaeth wedi'i gwneud ddiwethaf ym mis Mehefin a Gorffennaf 2015. Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff nad oedd goruchwyliaeth yn digwydd yn rheolaidd. Dywedodd rhai aelodau staff wrthym eu bod yn derbyn goruchwyliaeth unwaith bob chwe mis. At hynny, defnyddid goruchwyliaeth i drafod anghysondebau gyda'r staff, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn gosbol. Yn ein hymweliad ym mis Medi 2014, nodwyd bod diffyg goruchwyliaeth, ac mae angen gweithredu system o oruchwyliaeth reolaidd ar gyfer yr holl staff.

Dangosodd sampl o ddau weithiwr asiantaeth ac un cyflogai parhaol nad oedd hyfforddiant cynefino wedi'i gynnal a'i gofnodi. Rhaid i'r holl staff asiantaeth gael hyfforddiant cynefino gyda dogfennaeth ategol.

Mae angen cynnal adolygiad o fynediad at y system TG ar gyfer cofnodi gwybodaeth ar *Care Notes*. Ar ein hymweliad gyda'r nos, pan oedd staff asiantaeth a staff cronfa'n goruchwyllo gofal y cleifion ar bob un o'r tair ward, roedd yn amlwg nad oedd gan unrhyw aelodau staff gyfrif i allu mewngofnodi, a'u bod naill ai'n gorfod dibynnu ar staff parhaol i fewngofnodi, neu nid oedd

---

<sup>2</sup>System dysgu a datblygu ar-lein ar gyfer holl staff y Priory yw *Foundations for Growth*. Am ragor o wybodaeth, ewch i <http://www.priorygroup.com/working-for-the-priory-group/learning-and-development>

ganddynt fynediad o gwbl. Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n ychwanegu nodiadau i'r system yn gwneud hyn o dan ei enw ei hun, nid drwy ddefnyddio manylion rhywun arall, er mwyn sicrhau bod y cofnod yn fanwl gywir.

### **Camau gofynnol**

***Mae angen cynnal adolygiad o'r holl ffeiliau staff er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chyson, gan gynnwys dau eirida a dogfennau i ddangos tystiolaeth o gymwysterau perthnasol.***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r hyfforddiant, ac mae angen mynd i'r afael â'r diffygion. Yn benodol, mae angen darparu hyfforddiant ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, a hyfforddiant diffibriliad.***

***Mae angen rhoi system o arfarniadau a goruchwyliaeth reolaidd ar waith ar gyfer yr holl staff, ac mae angen i dystiolaeth o'r arferion hyn gael ei chofnodi a'i rhoi yn y ffeil.***

***Rhaid i'r holl staff asiantaeth gael hyfforddiant cynefino gyda dogfennaeth ategol.***

***Mae angen cynnal adolygiad o fynediad at y systemau TG er mwyn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys staff cronfa a staff asiantaeth, yn gallu cofnodi nodiadau ar y system o dan eu henw eu hun, er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn fanwl gywir.***

### **Llywodraethu**

Gwnaethom nodi bod diffyg prosesau archwilio a llywodraethu cadarn ar waith, a bod angen i'r rhain gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad ddealltwriaeth glir o gryfderau a gwendidau'r ysbyty.

O dan Reoliad 28 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rhaid i'r darparwr cofrestredig gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar y meysydd a restrir o fewn Rheoliad 28 i AGIC bob chwe mis. Nid yw AGIC wedi derbyn copïau o unrhyw adroddiadau a wnaed gan y darparwr cofrestredig.

### **Cam gofynnol**

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig roi prosesau llywodraethu ac archwilio cadarn ar waith.***

***Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis, a rhaid anfon yr adroddiadau at AGIC.***

## ***Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl***

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pedwar o'r cleifion oedd yn derbyn gofal ar ddwy ward ar adeg ein hymweliad. Roedd y trefniadau ar gyfer gweinyddu Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn gynhwysfawr iawn, ac roedd amrywiaeth o systemau effeithiol ar waith. Gwnaethom nodi bod y daflen wybodaeth ddarluniadol am y Ddeddf Iechyd Meddwl yn faes o arfer da.

Dangosodd adolygiad o bedair set o ddogfennau ynglŷn â Deddf Iechyd Meddwl 1983 nad oedd ffurflenni MHA 11 ar gyfer cleifion nad ydynt yn cydsynio.

### ***Cam gofynnol***

***Dylai'r holl gleifion nad ydynt yn cydsynio gael ffurflenni priodol wedi eu cwblhau, gan gynnwys MHA 11.***

## **Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl**

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth tri chlaf yng Nghefn Carnau, a gwnaethom yr arsylwadau canlynol:

- O'r ffeiliau a archwiliwyd, roedd yn anodd gweld sut roedd y Mesur yn cael ei ymgorffori yn nogfennaeth y cynllun gofal.
- Nid oedd digon o nodau penodol yn cael eu pennu yn y cynlluniau gofal a adolygwyd.
- Roedd diffyg gwerthusiad o fewn amserlen benodol.

### **Cam gofynnol**

***Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod y Mesur yn cael ei ymgorffori yn nogfennaeth cynlluniau gofal, bod nodau penodol yn cael eu pennu yn y cynlluniau gofal, a bod gwerthusiad yn cael ei gwblhau o fewn amserlen benodol.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Cefn Carnau gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Cefn Carnau yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

**Cynllun Gweithredu Arolygiad AGIC**

**Ysbyty:** Ysbyty Priory, Cefn Carnau

**Dyddiad yr arolygiad:** 11–13 Awst 2015

**Dyddiad y Cynllun Gweithredu:** 10 Medi 2015

**Cyfarwyddwr yr Ysbyty:** Vicky O'Dea

**Graddfa: coch, oren a gwyrdd**

**Gwyrdd = Wedi'i gwblhau**

**Oren = Ar waith**

**Coch = Wedi mynd heibio'r amserlen ar gyfer ei gwblhau**

Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserlen ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
15 (1) (b)	Mae angen i'r holl eitemau bwyd sy'n cael eu storio mewn oergelloedd gael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio.	Caiff tymereddau'r oergelloedd eu gwirio'n ddydiol, ac yn ystod y gwiriad hwn bydd yr holl fwyd ynddynt yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod o fewn ei ddyddiad a'i fod yn ddiogel i'w fwyta.	Mae hyn bellach ar waith.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol/Uwch Weithiwr Cymorth		05.09.15	
Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserlen ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
20 (1) (a) a (b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod o leiaf un aelod parhaol o'r tîm nrysio ar ddyletswydd bob amser.	Caiff amserlenni'r staff eu llunio pedair wythnos ymlaen llaw bellach, a thynnir sylw at ddiffyg staff. Bob dydd Iau mae'r Pennaeth Adran a'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol yn gwirio'r amserlen ar gyfer y saith diwrnod nesaf, ac yn cywiro unrhyw ddiffyg staff.	Mae hyn ar waith, a chaiff ei fonitro bob wythnos gan y Pennaeth Adran neu'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol. Caiff unrhyw ddiffyg staff ei gywiro yn ystod y cam hwn.	Pennaeth Adran		14/08/15	14.08.15
Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserlen ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
21 (1) (a) a 21 (2) (b) a (d)	Mae'n hanfodol bod gan unrhyw staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty y sgiliau a'r	Ysgrifennodd y Pennaeth Adran at bob asiantaeth, gan nodi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Yna, caiff hyn ei wirio gan y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol drwy edrych	Diweddarwyd y ffeiliau, ac maent wedi eu lleoli'n ganolog. Caiff y rhain eu gwirio'n wythnosol gan y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol, eu trafod mewn cyfarfodydd	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol		14.08.15	14.08.15

Safon	Dyfarniad Sylwadau/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
	profiad sy'n ofynnol ar gyfer y grŵp o gleifion er mwyn sicrhau cymhwysedd ac ansawdd y gofal a ddarperir.	ar ddogfennau CV a chofnodion hyfforddiant a gyflwynir gan yr asiantaeth.	Llywodraethu Clinigol, a'u monitro fel rhan o rowndiau Teithiau Ansawdd gan Reolwr yr Adran.				
21 (1) (a) a (b)	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gan y staff asiantaeth a'r staff cronfa y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i weithio yn yr ysbyty.	Ysgrifennwyd at y staff banc i'w hatgoffa o bwysigrwydd eu gofyniad hyfforddiant, gan gynnwys y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Rheoli ac Atal Trais ac Ymddygiad Ymosodol, ac Anableddau Dysgu.	Cyflwynwyd llythyrau a diweddarwyd cofnodion hyfforddiant. Mae modiwlau FFG wedi eu hail-ddyrannu i'r staff.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol/Adnod dau Dynol		31/10/15	
Safon	Dyfarniad Sylwadau/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
19 (1) (b)	Mae angen system ar gyfer adolygu meddyginiaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau y ceir gwared ar yr holl feddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad.	Sefydlu ac ymgorffori'r broses ar gyfer archwiliad wythnosol gan nyrsys nos, er mwyn gweld a oes meddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad. Gosodir meddyginiaeth mewn biniau gwastraff fferyllol, ac yna fe'i cesglir er mwyn cael gwared arni.	Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol yn ysgrifennu at nyrsys, ac yn cynnwys nodyn atgoffa iddynt yn y llyfr trosglwyddo. Trafodaethau mewn cyfarfodydd ward, ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan ddarparwr y fferyllfa.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol		31/10/15	
Safon	Dyfarniad Sylwadau/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
15 (1) (a)	Mae angen cynnal adolygiad o'r gweithgareddau a gynigir i gleifion, yn benodol ar Ward Sylfaen, er mwyn sicrhau eu bod yn	Therapydd Galwedigaethol i adolygu rhestri gwirio gweithgarwch blaenorol gyda nyrsys enwebedig a chleifion er mwyn datblygu gweithgareddau sy'n benodol i'r cleifion ac i'r grŵp.  Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal yn	Mae hyn yn barhaus, er mwyn cynnwys trafodaethau â'r grŵp cleifion.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol/Therapydd Galwedigaethol		31.10.15	

Safon	Dyfarniad Sylwadau/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
	briodol ar gyfer y cleifion, a'u bod mor agos â phosibl i'w diddordebau, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymgysylltu ac yn cyfranogi mwy.	chwarterol.					
<b>Safon</b>							
15 (1) (a) (b) a (c)	Mae'n rhaid ystyried ail-gyflwyno rhaglenni addysg ac achredu mewnol.	Mae arweinydd therapiâu yn cael ei recriwtio, a bydd yn adolygu'r ddarpariaeth addysg yn fanwl. Rhoddir ystyriaeth i gyfraniadau gan addysg sesiynol ar gyfer asesiadau sylfaenol ac i fynd i'r afael ag anghenion addysgol penodol.	Cyhoeddwyd hysbyseb; y dyddiad cau yw 30/09/15. Mae'r Pennaeth Adran yn ymchwilio i gyfraniadau sesiynol gan golegau lleol.	SC/MD/ Pennaeth Adran		22/01/16	
<b>Safon</b>							
Safon	Dyfarniad Sylwadau/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
21 (2) (a) a (d)	Mae angen cynnal adolygiad o'r holl ffeiliau staff er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chyson, gan gynnwys dau eirida a dogfennau i ddangos tystiolaeth o gymwysterau perthnasol.	Dechreuwyd adolygiad o'r holl ffeiliau staff er mwyn nodi'r holl ddiffygion a'u cywiro. Bydd hyn yn cael ei storio ar daenlen Adnoddau Dynol, er mwyn cael cofnod o le mae eitemau ar goll. Os oes eitemau ar goll, cymerir camau gweithredu i'w casglu os oes modd, ond os nad oes modd, rhoddir nodyn yn y ffeil i nodi'r camau gweithredu a gymerwyd.	Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd, a bydd hwn yn cael ei fonitro drwy'r cyfarfod hyfforddiant.	Pennaeth Adran/Adnoddau Dynol		31/10/15	
<b>Safon</b>							
Safon	Dyfarniad Sylwadau/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
21 (2) (a) a (d)	Mae angen cynnal adolygiad o'r hyfforddiant, ac	Bydd y matrices hyfforddiant yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r holl ofynion hyn.	Cyflwynwyd hyfforddiant gofynnol, ac mae'n cael ei adolygu drwy'r Cyfarfod Llywodraethu Clinigol.	Pennaeth Adran/Adnoddau Dynol		30/11/15	



Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd	
	mae angen mynd i'r afael â'r diffygion. Yn benodol, mae angen darparu hyfforddiant ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, a hyfforddiant diffibriliad.							
		Mae hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar gael ar ffurf e-ddysgu, a bydd gofyn i'r staff ei gwblhau o fewn un mis.	Mae'r hyfforddiant wedi dechrau.	Pennaeth Adran/Adnoddau Dynol		31/10/15		
		Mae'r adran seicoleg eisoes wedi dechrau hyfforddiant wyneb yn wyneb Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol.	Mae'r hyfforddiant wedi dechrau.	Pennaeth Adran/Seicoleg		30/11/15		
		Rydym yn chwilio am hyfforddwr priodol ar gyfer Mesur Cymru.			Pennaeth Adran/Seicoleg		22/01/16	
		Deffibrilio – mae hyn yn rhan o hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol – wedi'i weithredu drwy raglen barhaus ar gyfer y staff.	Mae'r hyfforddiant wedi dechrau.	Pennaeth Adran/Adnoddau Dynol		27/11/15		
Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd	
20 (2) (a) (b)	Mae angen rhoi system o arfarniadau a goruchwyliaeth reolaidd ar waith ar gyfer yr holl staff, ac mae angen i dystiolaeth o'r arferion hyn gael ei chofnodi a'i rhoi yn	Bydd y rheolwr cymorth busnes sydd newydd gael ei benodi yn gyfrifol am gofnodi ac am ffeilio tystiolaeth o oruchwyliaeth (clinigol a goruchwyliaeth nad yw'n glinigol) er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei harchwilio'n rheolaidd a'i hadolygu mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol.	Mae taenlen goruchwyliaeth glinigol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.  Mae hyfforddiant goruchwyliaeth glinigol yn cael ei ddarparu gan yr Arweinydd Ansawdd – mae pobl Hyfforddi'r Hyfforddwyr wedi'u nodi, ac maent wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer darparu goruchwyliaeth.	BSM/Adnoddau Dynol/Pennaeth Adran a'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol		14/12/15		
						30/11/15		
						01/10/15		

Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
	y ffeil.	Mae hyfforddiant goruchwyliaeth glinigol yn cael sylw ar hyn o bryd.		Pennaeth Adran			
Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
20 (2) (a)	Rhaid i'r holl staff asiantaeth gael hyfforddiant cynefino gyda dogfennaeth ategol.	Bydd yr holl ffeiliau personél yn cael eu harchwilio, a gweithredir yng nghyswllt unrhyw ddogfennau sydd ar goll neu unrhyw ddiffygion o ran hyfforddiant cynefino. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cofnodi ar y daenlen adnoddau dynol, unwaith iddynt gael eu gosod yn y ffeil ar ôl iddynt gael eu cwblhau.	Mae archwiliad parhaus ar waith, ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y cyfarfod hyfforddiant.	Pennaeth Adran/Rheolwr Gwasanaethau Clinigol/Adnod dau Dynol		02/10/15	
Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
20 (1) (a) (b)	Mae angen cynnal adolygiad o fynediad at y systemau TG er mwyn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys staff cronfa a staff asiantaeth, yn gallu cofnodi nodiadau ar y system o dan eu henw eu hun, er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn fanwl gywir.	Y Pennaeth Adran i gyfathrebu ag adran TG y Priory i ddatblygu cyfrifon mewngofnodi ar gyfer y staff cronfa, a chyfrifon mewngofnodi i ymwelwyr, yn ogystal â datblygu system gadarn i gofnodi sut y caiff cyfrifon mewngofnodi eu dyrannu o ddydd i ddydd.		Pennaeth Adran/TG		07/01/16	
Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserle n ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
9 (1) (f)	Mae'n rhaid i'r darparwr	Cynhaliwyd ymweliad cydymffurfiaeth blynyddol y Priory ar 2 a 3 Medi	Yn aros am gynllun gweithredu llawn gan y tîm archwilio.	Pennaeth Adran a'r		31/11/15	

Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserlen ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
	cofrestredig roi prosesau llywodraethu ac archwilio cadarn ar waith.	(mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd ag argymhellion AGIC a'r argymhellion tymor hir – camau gweithredu i gyd-fynd â'r cynllun hwn). Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol a thrwy archwiliadau taith ansawdd wythnosol.	Bydd hwn hefyd yn cynnwys gweithredu systemau ansawdd y Priory yn gadarn, megis cofnodion llywodraethu clinigol da, gweithredu gwersi a ddysgwyd, monitro ansawdd drwy deithiau ansawdd, cwblhau archwiliadau ar galendr archwilio adrannol.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol			
<b>Safon</b>							
19 (1) (a) (b)	Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis, a rhaid anfon yr adroddiadau at AGIC.	Bydd y Pennaeth Adran yn cyfathrebu â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau am unrhyw wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol y gellir ei darparu o'i ymweliadau rheolaidd â'r safle a'r cyfarfodydd cynnwys defnyddwyr gwasanaeth y mae'n eu cadeirio. Sefydlu proses ar gyfer ymweliadau Rheoliad 28 a fydd yn cael eu cwblhau bob chwe mis a'u cyflwyno i AGIC.		Cyfarwyddwr Gweithrediadau		31/10/15	
<b>Safon</b>							
28 (1) a (2) (a) (b) (c) a (3) a (4) (a) (b) (c) a (5) (a) (b) (c)	Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod y Mesur yn cael ei ymgorffori yn nogfennaeth cynlluniau gofal, bod nodau penodol yn cael eu pennu yn y cynlluniau gofal, a bod gwerthusiad yn cael ei gwblhau o fewn amserlen benodol.	Tîm cydymffurfiaeth mewnol y Priory wedi ymweld 02/03 Medi. Bydd copi yn cael ei anfon at AGIC.	Unwaith y cytunir ar y cynllun gweithredu hwn gydag AGIC, bydd yn cael ei fonitro'n fisol drwy gyfarfodydd taith ansawdd a llywodraethu clinigol.  Mae hyn ar waith drwy gydgyssylltydd, a bydd yn cael ei fonitro drwy'r timau amlddisgyblaethol.	Pennaeth Adran		30/09/15	
		Ar gyfer yr holl gleifion sy'n cael eu comisiynu gan GIG Cymru: Cydgysylltydd cynlluniau gofal a thriniaeth a'r dull rhaglen ofal i fonitro lefelau cwblhau ac uwchlwytho dogfennau cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer yr holl gleifion sy'n gymwys (gan gynnwys cleifion newydd).		Pennaeth Adran		31/11/15	
		Mae fformat y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei ailystyried er mwyn sicrhau		Pennaeth Adran		30/11/15	
				Pennaeth Adran/MD		30/11/15	

Safon	Dyfarniad Sylwadau / Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd hyd yn hyn	Gan bwy	COCH, OREN, GWYRDD	Amserlen ar gyfer cwblhau	Dyddiad cwblhawyd
		bod yr holl gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n glir bob mis gan y tîm amlddisgyblaethol a nyrs enwebedig, yn unol â'r nodau a bennwyd yn ystod y cyfarfod cynlluniau gofal a thriniaeth diwethaf.					
Dd/B	Dylai'r holl gleifion nad ydynt yn cydsynio gael ffurflenni priodol wedi eu cwblhau, gan gynnwys MHA 11.	Bydd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ail-archwilio, ac yn cysylltu â'r partïon perthnasol i gwblhau ffurflenni.		Pennaeth Adran/AG/MD		30/11/15	
	Gwirio toiledau'n rheolaidd	I'w ychwanegu at amserlenni glanhau'r safle, a'u gwirio yn ystod teithiau ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.		Pennaeth Adran/Rheolwr Gwasanaethau Clinigol/ Rheolwr Gwasanaethau Cymorth		30/10/15	